

---

## PWYLLGOR IAITH DYDD MAWRTH, 22 MEHEFIN 2021

---

**Y CYNGHORWYR:** Beca Brown, Elwyn Edwards, Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elwyn Jones, Eric M Jones, Kevin M Jones, Elin Walker Jones, Cai Larsen, John Pughe Roberts ac Elfed Williams.

**SWYDDOGION:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Gwenllian Mair Williams (Ymgynghorydd Iaith), Siôn Elwyn Hughes (Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg), Lowri Evans, Sioned Mai Jones a Natalie Lloyd Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

**ERAILL A WAHODDWDYD:** Y Cyngorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol) a'r Cyngorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg)

Eitem 7: Rhion Glyn (Uwch Reolwr Busnes, Oedolion, Iechyd a Llesiant)

Eitem8: Marian Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teulu)

Eitem 11: Debbie Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg) , Rhian Parry Jones (Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd), Sian Eirug (Cydlunydd Strategaeth Iaith Uwchradd)

### 1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Y Cyngorydd Alwyn Gruffydd fel Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2021/22.

### 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Y Cyngorydd Judith Humphreys fel Is Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2021/22

### 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Y Cyngorydd Alan Evans, Y Cyngorydd Eirwyn Williams, ac Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).

### 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

### 5. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

### 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar

y 29 Ebrill 2021 fel rhai cywir.

## 7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

### Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Uwch Reolwr Busnes, Oedolion, Iechyd a Llesiant ac amlygwyd y camau a gymerwyd o fewn yr adran er mwyn hybu'r Gymraeg.

Tynnwyd sylw at flaenoriaethau'r adran fel a ganlyn:

- Integreiddio gwasanaethau wrth gydweithio efo partneriaid megis Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Ategwyd y byddai hyn yn newid y ffordd o weithio gan sicrhau gwell defnydd o adnoddau.
- Nodwyd bod staff y Cyngor yn cydymffurfio â Pholisi Iaith y Cyngor, fodd bynnag daw heriau gyda phartneriaid sydd â pholisi iaith wahanol i'r Cyngor.
- Amlygwyd rhwystrau a heriau gan nodi enghreifftiau fel defnydd iaith wrth gofnodi nodiadau defnyddwyr.
- Er bod sgiliau iaith staff y Cyngor yn cyrraedd y dynodiad angenrheidiol, nid oes gwybodaeth ynghylch sgiliau iaith staff partneriaid.
- Amlygwyd bod angen mwy o waith wrth gomisiynu gwasanaethau gan fod yr adran yn dibynnu ar sector annibynnol/ preifat sydd ddim yn atebol i safonau iaith a disgwyliadau'r Cyngor.
- Trafodwyd heriau gan gynnwys recriwtio a chadw staff a'r datrysiadau megis gwaith hyrwyddo llwybrau gyrfa o fewn y maes.

Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y sylwadau canlynol:-

- Diolchwyd am yr adroddiad a gofynnwyd a oedd y ffigur 79% o staff sy'n cyrraedd y dynodiad iaith yn cael effaith ar drigolion Gwynedd a'u dewis i dderbyn gwasanaethau drwy'r Gymraeg.
- Gofynnwyd i ba raddau mae polisi iaith y Bwrdd Iechyd yn rhwystro Cyngor Gwynedd i gynnig darpariaeth ddwyieithog, ar gynffon hyn gofynnwyd a oes dulliau mapio iaith staff y Bwrdd Iechyd.
- Mynegwyd balchder bod profiad defnyddwyr yn cael blaenoriaeth o fewn y gwasanaeth.
- Holwyd am safbwynt arolygwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â defnydd y Gymraeg o fewn yr adran.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod yr her i sicrhau staff sydd â sgiliau iaith Cymraeg yn fwy mewn rhai ardaloedd, fodd bynnag ar y cyfan, isel iawn yw'r ffigur o staff sydd heb allu yn y Gymraeg o gwbl.
- Mai o fewn y swyddfa ac wrth gofnodi nodiadau ar y system mae sicrhau defnydd y Gymraeg yn fwy heriol gan fod y rhain yn cael eu rhannu efo cydweithwyr allanol.
- Bod trafodaethau rhwng yr Ymgynghorydd Iaith a'r Bwrdd Iechyd yn digwydd er mwyn gallu mapio sgiliau staff.
- Un her ddiweddar oedd sicrhau gwasanaethau *cyfarfodydd* ar-lein yn y Gymraeg gan nad oedd cyrff eraill yn defnyddio'r un meddalwedd.
- Mai cam nesaf i'r adran yw adnabod sgiliau iaith y gweithlu a phwy sydd angen hyfforddiant. Eglurwyd y byddai hyn yn rhoi cyfle i gydweithio efo darparwyr sydd angen cymorth er mwyn sicrhau hyn.
- Bod gofyniad i'r adran adrodd yn flynyddol ar sgiliau iaith ac yn ogystal bod y

Bwrdd Iechyd hefyd yn casglu data sgiliau iaith a'u diweddarau'n rheolaidd. Fodd bynnag, gan nad yw'r dulliau yn gymharol nid yw'n bosib cymharu setiau data.

## 8. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: PLANT A CEFNOGI TEULU

### Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Plant a Cefnogi Teulu ac amlygwyd y camau a gymerwyd o fewn yr adran er mwyn hybu'r Gymraeg.

Ategwyd bod y gwasanaeth yn cynnwys elfen Gwasanaethau Cymdeithasol, Tîm Cefnogi Teulu, Blynyddoedd Cynnar & Meithrin, ac adran Ieuenctid a Chyfiawnder. Eglurwyd bod gan bob rhan o'r gwasanaeth cyfrifoldebau eang.

Tynnwyd sylw at flaenoriaethau'r adran fel a ganlyn:

- Hybu a hyrwyddo gwasanaethau blynyddoedd cynnar wrth gydweithio efo Hunaniaeth.
- Annog gweithwyr i ddefnyddio a gwella eu sgiliau iaith, a chyflwyno adnoddau a chymorth i ofalwyr plant (childminders).
- Cefnogi Cynllun Croesi'r Bont ar gyfer trochi plant meithrin - nodwyd bod 11 cylch y Sir yn derbyn cefnogaeth gan y cynllun hyd hwn.
- Darparu cefnogaeth i rieni – sesiynau clwb cwtsh ar lein 35 o unigolion
- Darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc bregus er mwyn sicrhau bod anghenion iaith bob plentyn wedi ei hystyried.
- Eglurwyd er bod iaith yn ffactor wrth ystyried pecyn gofal a chefnogaeth, mae ambell i blentyn neu blant yn dod i ofal oherwydd risgiau neu anghenion dwys lle bod lleoliad all-sirol yn angenrheidiol. Ategwyd er nad oedd modd i sicrhau dewis iaith yn yr achos yma, bod y Gweithwyr Cymdeithasol yn cyfarch anghenion ieithyddol drwy gadw cyswllt dros y ffon a darparu adnoddau yn eu lleoliad.
- Rhannwyd a'r pwyllgor bod 91% o weithwyr adran yn cyrraedd dynodiad iaith a rhoddwyd enghraifft o'r Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid sydd wedi ymdrechu i ddysgu'r iaith ac erbyn hyn yn rhugl.
- Sicrhawyd bod cytundebau trydydd parti yn cynnwys gofynion iaith mewn, ac eithrio rhai cytundebau unigol sy'n ymwneud a lleoliad all-sirol.
- Mynegwyd bod heriau recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol sydd yn arwain at recriwtio gweithiwr Di-gymraeg er mwyn sicrhau darparu gwasanaeth a dyletswyddau statudol diogelu.
- Diolchwyd i'r uned gyfieithu am yr holl gefnogaeth yn sicrhau bod cyfarfodydd rhithiol wedi parhau yn y Gymraeg.

Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y sylwadau canlynol:-

- Holwyd beth yw cynlluniau'r adran i ymdopi a'r heriau megis recriwtio staff Cymraeg a chynnig dewis iaith ragweithiol.
- Gofynnwyd a oes unrhyw beth all yr adran wneud ar y cyd efo'r sector addysg uwchradd i gwrdd â phroblem recriwtio.
- Holwyd pa mor gyffredin yw sefyllfa o blentyn Cymraeg yn cael eu lleoli gyda rhieni maeth di-gymraeg?
- Gofynnwyd beth yw'r meini prawf er mwyn i gylch meithrin cael bod yn rhan yn y cynllun Croesi'r Bont gan mai dim ond 11 o gylchoedd sydd wedi nodi.
- Mynegwyd diolch i'r adran am eu holl waith a bod eu hangerdd tuag at ddiogelu plant Gwynedd a'r iaith Gymraeg yn ysbrydoledig. Ychwanegwyd diolch i'r Pennaeth am ddisgrifio'r pwysau a straen sydd wedi bod ar y staff ag am egluro'r sefyllfa ynglŷn â phrinder gweithwyr cymdeithasol.

- Holwyd a oes llai o bobl Cymraeg eu hiaith yn maethu neu fabwysiadu a beth fuasai'r rhwystrau.
- Mynegwyd pryder bod plant Cymraeg sydd mewn carchar yn methu a siarad Cymraeg. Cynigwyd y byddai'n syniad ysgrifennu llythyr at y Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc gan bwylgor iaith i geisio cael tegwch i'r sefyllfa.

Mewn ymateb nodwyd:

- Bod y sefyllfa staffio yn bodoli'n rhannol wrth i staff symud swyddi'n fewnol oherwydd bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn eithriadol yn nhermau pwysau. Ategwyd mai symud i rolau efo llai o bwysau mae'r staff yma'n ei wneud. Eglurwyd bod hyn yn gadael bylchau sy'n dechrau mynd yn bryderus gan fod recriwtio staff dwyieithog yn heriol.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch hyrwyddo'r yrfa o Waith Cymdeithasol, eglurwyd bod pobl ifanc yn tueddu i wneud gradd ac yna cael profiad o fewn y maes ac yna dilyn M.A. Gwaith Cymdeithasol. Ategwyd y gellid edrych i mewn i hyrwyddo Gwaith Cymdeithasol fel gyrfa.
- Nad oedd heriau recriwtio gweithwyr oddi ar y cyrsiau ond recriwtio staff sydd â phrofiad sy'n heriol.
- Bod llawer iawn o'r gofalwyr/darpar rieni maeth yn ddwyieithog, fodd bynnag ategwyd bod sicrhau hyn ddim yn bosib bob tro.
- Bod ymrwymiad efo gweithwyr lleol i ymgymryd â chyfarfodydd yn y Gymraeg gyda defnydd cyfieithydd i'r rhai di-gymraeg.
- Mewn ymateb i gwestiwn ar broffil darpar rieni maeth/mabwysiadu, nodwyd mai dewis personol yw gwneud ond bod ymgyrch hyrwyddo yn digwydd yn aml.

## **9. YMGYNGHORIAD POLISI CENEDLAETHOL SEILWAITH IEITHYDDOL Y GYMRAEG**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

Cyflwynwyd dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru gan yr Ymgynghorydd Iaith gan nodi bod swyddogion iaith y Cyngor yn paratoi ymateb. Ategwyd bod hyn yn rhoi cyfle i aelodau'r Pwyllgor gynnig sylwadau i fwydo mewn i ymateb y swyddogion.

Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y sylwadau canlynol:-

- Gofynnwyd a fydd cysylltiad gydag uned Cynllunio Iaith ym Mhrifysgol Bangor er mwyn derbyn sylwadau gan arbenigwyr byd eang.
- Defnydd iaith yw'r flaenoriaeth os meddwl cael miliwn o siaradwyr, pwnc academaidd yw seilwaith
- Holwyd a oes cyfeiriad at Ap Geiriaduron o fewn y ddogfen.

Mewn ymateb:-

- Nodwyd gan mai dogfen Llywodraeth Cymru yw hon, nid oes lle ar y Cyngor fynd i dderbyn sylwadau gan y Brifysgol.
- Eglurwyd bod y ddogfen yn cyfeirio at nifer o adnoddau gan gynnwys yr Ap Geiriaduron ac eglurwyd mai un o'r cynigion yw bod un rhyngwyneb yn cael ei greu er mwyn cael mynediad at yr holl adnoddau.

## **10. ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol gan yr Ymgynghorydd Iaith. Eglurwyd bod yr adroddiad yn manylu ar gydymffurfiaeth y Cyngor o safonau iaith y Comisiynydd a bod angen derbyn sylwadau ar y ddogfen ddrafft hon.

Aethpwyd ati i egluro beth yn union sydd angen eu cynnwys o fewn y ddogfen megis:

- Cwynion
- Nifer o staff sy'n meddu ar sgiliau iaith Cymraeg
- Nifer y staff sydd wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant penodol yn y Gymraeg
- Nifer swyddi sydd wedi eu hysbysebu gyda dynodiad Cymraeg yn hanfodol

Eglurwyd bod modd defnyddio hyn fel cyfle i amlygu arferion da'r cyngor a sut y goresgynnwyd heriau sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er enghraifft llwyddiannau ym maes cyfieithu sy'n arwain y blaen o ran cyfieithu ar y pryd mewn pwyllgorau rhithiol.

Ategwyd hyn gan Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg gan nodi bod gwersi Cymraeg mor brysur ac erioed ac wedi parhau ar-lein. Cyfeiriwyd unwaith eto at enghraifft o'r Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder leuenctid sydd wedi parhau i ddysgu Cymraeg ac o ganlyniad wedi datblygu'i sgiliau'n sylweddol.

Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y sylwadau canlynol:-

- Mynegwyd llongyfarch i'r tîm cyfieithu am eu gwaith yn addasu i gyfieithu ar y pryd yn rhithiol.
- Rhoddwyd sylw bod angen ysgogi trigolion i gyfathrebu yn y Gymraeg gyda'r Cyngor drwy newid delwedd y Cyngor o un llai swyddogol. Ategwyd bod pobl yn defnyddio Cymraeg wrth gysylltu â chynghorwyr ond nid efo swyddogion.
- Holwyd os mai dim ond pedwar cwyn oedd wedi ei dderbyn ac i egluro pam ei fod yn isel.

Mewn ymateb:

- Eglurwyd bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn edrych ar ddefnydd iaith o fewn derbynfydd a gwasanaethau wyneb i wyneb, fodd bynnag mae'r canolbwynt ar weithrediad mewnol trefniadau staff ac nid os yw'r cyhoedd yn defnyddio'r Gymraeg.
- Nodwyd bod y Comisiynydd Iaith yn ceisio gweld sut mae modd annog mwy o ddefnydd ymysg y cyhoedd.
- Mewn ymateb, nodwyd mai cwynion yn erbyn safonau neu bolisiâu'r Cyngor yn unig sydd wedi adrodd i'r pwyllgor iaith a dyna pam dim ond pedwar sydd i'w nodi.

## **11. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG A'R GYFUNDREFN ADDYSG DROCHI**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

Eglurwyd bod hyn yn gychwyn ar bennod newydd o safbwynt cynllunio'r Gymraeg mewn addysg ac y bydd y cynllun strategol ar ei newydd wedd yn weithredol o Fedi 2022 ymlaen. Ategwyd mai trochi i'r Gymraeg drwy'r system addysg yw'r model mwyaf dibynadwy ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg sef diben strategaeth y Llywodraeth; Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr.

Rhannwyd gweledigaeth yr Aelod Cabinet dros Addysg ynghyd â gweledigaeth Pennaeth yr Adran Addysg. Trafodwyd y 7 deilliant o ran y CSGA newydd am y ddeng

mlynedd nesaf yn ogystal â'r amserlen ymgynghori.

Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y sylwadau canlynol:-

- Rhoddwyd sylw bod angen ymestyn ffiniau'r Gymraeg y tu hwnt i'r byd addysg fel bod plant yn parhau i'w defnyddio a gofynnwyd sut gallai'r Adran Addysg wneud hyn.
- Nodwyd bod dau bwnc yn unig drwy gyfrwng y Gymraeg yn isel iawn ac a oes cynlluniau i gynyddu hyn.
- Mynegwyd bod angen ysgolion dynodedig Gymraeg.
- Diolchwyd am y cyflwyniad. Cydnabuwyd bod Gwynedd yn arwain y ffordd mewn darpariaeth addysg Gymraeg, fodd bynnag mynegwyd pryder bod nifer uchel o blant sy'n dilyn eu haddysg drwy'r Gymraeg yn gostwng yn CA4.
- Holodd aelod beth allai'r Cyngor wneud mewn sefyllfa lle nad yw'r corff llywodraethu'n rhannu'r un gwerthoedd o ran darpariaeth addysg?

Mewn ymateb nodwyd:

- Bydd y ddogfen yn statudol ym mis Medi 2022.
- Yr angen i sicrhau mwy o athrawon sy'n hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i atal nifer y disgyblion sy'n dewis astudio pynciau drwy gyfrwng y Saesneg yn CA4 a thu hwnt.
- Mai isafswm yn unig yw'r 2 bwnc mewn ysgolion sy'n gynnig dim o gwbl yn bresennol.
- Bod angen hyrwyddo gwerth dwyieithrwydd ymhlith rhieni di-gymraeg ac nad yw'r Gymraeg ar draul y Saesneg.
- Os bydd ysgolion yn cael eu hadnabod fel rhai sy'n achosi pryder o ran darpariaeth y Gymraeg mae camau gweithredol mewn lle i addysgu Llywodraethwyr ar eu darpariaeth.
- Ategwyd bod hyn yn cael ei drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd a rhan o hyfforddiant ein Llywodraethwyr.
- Bod gwaith ymchwil i sicrhau gwybod ymlaen llaw pa iaith fydd y cwrs yn cael ei gynnal os ydynt yn symud o CA4 i goleg addysg bellach.

## ii. **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032: Gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt**

Cafwyd rhagair gan y Pennaeth Addysg yn nodi ei fod yn croesawu'r cyfle i ddod â'r eitem gerbron y Pwyllgor Iaith o ran ei phwysigrwydd.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg gan gyfeirio at weledigaeth yr Aelod Cabinet dros Addysg a chyflwynwyd yr amcanion ar gyfer cyflawni'r weledigaeth.

Aethpwyd ati i egluro i'r pwyllgor beth yn union fydd y ddarpariaeth newydd a fydd yn cael ei gynnig o ran addysg drochi yn ogystal â sut y bwriedir ei ariannu, sef drwy'r grant GGA, yr Adran Addysg yn ogystal â gan yr ysgolion.

Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y sylwadau canlynol:-

- Croesawyd y newyddion bod Bangor yn derbyn uned addysg drochi, a mynegwyd brwdfrydedd at weld uned cynradd ac uwchradd yno.

- Holodd aelod pa mor aml fydd plant yn cael mynediad I'r Canolfannau Iaith.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y strwythur staffio, beth fydd y gymhareb athrawon a phlant yn y canolfannau newydd, a beth fydd rôl y cymhorthydd dosbarth.
- Mynegwyd balchder fod y Cyngor wedi arloesi wrth fuddsoddi yn sylweddol i allu ehangu nifer y safleoedd fydd ar gael gan fod ardal de Meirionydd yn arbennig, efo heriau sylweddol o ran y Gymraeg.
- Mynegwyd pryderon ynghylch â'r bwriad I'r dysgwyr fynychu'r ysgol am 1 diwrnod pob wythnos gan y gallai arwain at sefydlu arferion siarad Saesneg ymhlith cyfoedion all barhau am weddill oes y berthynas. O ganlyniad, nodwyd nad oedd yr aelod yn cefnogi'r weledigaeth .
- Holwyd beth oedd y sefyllfa o ran monitro ar gyfer adnabod y newidiadau sy'n cymryd lle.

Mewn ymateb:

- Nodwyd bod plant yn cael mynediad efo'r gyfundrefn newydd ar ddechrau bob tymor am gyfnod o 8-10 wythnos. Ategwyd bydd dysgu cyfunol ar waith cyn iddynt gyrraedd y safle.
- Eglurwyd bod angen gweithio drwy'r manylder gan fod y drefn gorfforaethol yn nodi mai mater i adrannau unigol yw materion cyflogaeth.
- Fel unrhyw wasanaeth, bydd yr adran yn adolygu'r gwasanaeth yn barhaus o ran sicrwydd ansawdd ac os yw tystiolaeth yn dangos bod angen gwelliannau neu addasiadau yna bydd mesurau'n cael eu rhoi mewn lle er mwyn sicrhau hynny.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 1.15 y.h.

---

**CADEIRYDD**